

## Darganfod: Grawys 2019

Wrth i ni barhau i droedio llwybrau'r Grawys tua'r Pasg cawn ein tywys gan **Ruth Wynn**, Llywydd y Gymdeithasfa yn y Dwyrain, i fyfyrto am yr heriau a ddaw i'n rhan.

### DARGANFOD LLWYBRAU NEWYDD

Mewn bywyd bob dydd mae'n rhaid i ni wynebu amrywiol brofedigaethau – profiadau chwerw a phrofiadau melysach. Ond haws dweud na gwneud.

Yn y cyfnodau caled bydd rhuddin ein cymeriad yn dod yn amlwg. Dywedodd Dr. Martin Luther King, Jr:

*“Yn y pendraw yr hyn sy'n datgelu rhuddin cymeriad mewn dyn yw nid beth ydyw mewn cyfnod o hawddfyd ond ei ymateb mewn cyfnodau heriol a dyrys.”*

Fel ym mhob dim mae hi'n grefft medru cyfleu newyddion drwg. Pa mor aml ydyn ni wedi clywed am newyddion drwg yn cael ei gyfleu mewn modd annifyr neu annymunol? Sut fydddech chi'n teimlo pan fydd rhywun yn mynnu rhoi newydd drwg i chi mewn modd anystyriol ohonoch? Os medrwch gyfleu newyddion annymunol mewn modd sy'n ystyried ei effaith ar yr unigolyn sy'n ei dderbyn byddwch yn creu cymeriad mwy ystyriol a chytbwys ynoch eich hun.

Mae bod yn gymeriad geirwir yn hollbwysig. Sawl gwaith y gwelsoch fod rhywun yn addo rhywbeth i chi ac yna'n canfod nad oedd bwriad ganddo/i i gyflawni'r addewid? Does dim gwahaniaeth ynglŷn â natur heriol y neges ond mae'n rheidrwydd bob amser i ni geisio dweud y gwir.

Rhaid i ni beidio â bod ag ofn sefyll dros y gwir. Wrth i ni orfod mynegi newyddion drwg i unigolyn rhaid i ni fod yn barod i roi'r darlun ehangach iddynt na'r broblem sydd dan sylw. Mae derbyn neges heriol bob amser yn anodd.

Serch hynny mae'n anos derbyn neges heriol heb wybod yr holl ffeithiau a'r darlun ehangach yn y sefyllfa benodol honno. Os ydym yn bobl sy'n hoffi sgwrsio rhaid i ni fod yn ymwybodol ein bod yn bobl sy'n cynnig atebion i sefyllfaoedd dyrys. Pa mor aml fyddwn ni'n clywed pawb yn beio pawb mewn sefyllfaoedd dyrys? Yn hytrach na phwyntio bys chwiliwch am ffordd o ymgodymu â,

neu ddatrys, y broblem. Dydy pwyntio bys a chanolbwyntio ar y broblem yn gwneud dim i'w datrys hi.

Onid ydyw yn briodol i ni fel Cristnogion ymdrechu i gryfhau ffydd pobl wrth i ni geisio hoelio sylw pobl nid ar glyfrwch dyn ond ar ddoethineb Duw?

Pan oedd gwendid Crist fwyaf amlwg ar y groes roedd gallu Duw ar ei gryfaf yn delio gyda phwysau pechod a chondemniad dyn, a hynny er mwyn lles pawb a fyddai'n ymddiried ynddo.

Yn Rhufeiniaid 8, ad. 31 a 32 dywed Paul:

*Felly, beth mae hyn yn ei olygu? Os ydy Duw ar ein hochr ni, sdim ots pwy sy'n ein herbyn ni! Wnaeth Duw ddim hyd yn oed arbed ei Fab ei hun! Rhoddodd e'n aberth i farw yn ein lle ni i gyd. Felly oes yna unrhyw beth dydy e ddim yn fodlon ei roi i ni? beibl.net*

Yn union fel y mae doethineb Duw yn ffolineb i ddynton felly hefyd mae gallu Duw yn ymddangos fel gwendid i ddynt. Dyna yw trefn rhagluniaeth Duw. Dewisodd Duw yr hyn sy'n wan yn ein byd i godi cywilydd ar y cryf. Mae grym achubol ffydd yn bŵer dwyfol sydd ar waith ac yn rym sy'n cynnal y rhai gwylaid. Mae'r grym i'w weld yn disgleirio mewn sefyllfaoedd anodd. Dyna'r pŵer difesur a welwn yn Iesu Grist wrth iddo yn wylaid gerdded y llwybr at y groes yn ein lle. Rhaid i ni gofio mai croes yw canolbwynt ein cred a'n bod, wrth i ni gael ein croeshoelio gydag e, hefyd yn cael ein gogoneddu ynddo Ef. A thra ein bod yn byw ar y ddaear byddwn yn cerdded llwybr y groes ac yn cael ein llenwi â llawenydd a gobaith.

Mae Duw yn defnyddio neges y groes er mwyn drysu doethion y byd hwn a gosod tramgwydd ar lwybrau'r rheiny sy'n tybied eu hunain yn glyfar. Mae Duw yn darparu neges y groes ar gyfer byd colledig. Gosododd Duw weision iddo i hun a fyddai'n ymwybodol o'u gwendid fel na fyddent yn anghofio mai gallu a phŵer Duw sydd wrthi'n cynnal a chreu ffydd.

(Addas. LAJ)



*O'r amser hwnnw y dechreuodd Iesu ddangos i'w ddisgyblion fod yn rhaid iddo fynd i Jerwsalem, a dioddef llawer gan yr henuriaid a'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, a'r trydydd dydd ei gyfodi. A chymerodd Pedr ef a dechrau ei geryddu gan ddweud, “Na ato Duw, Arglwydd. Ni chaiff hyn ddigwydd i ti.” Troes yntau, a dywedodd wrth Pedr, “Dos ymaith o'm golwg, Satan; maen tramgwydd ydwyt imi, oberwydd nid ar bethau Duw y mae dy fryd ond ar bethau dynol.” Yna dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, “Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i. (Mathew 16: 21–24)*